

DATGANIAD YNGLŶN Â CHANLYNIADAU GRADD PRIFYSGOL BANGOR 18/19

Mae'r ddogfen ganlynol yn cynnwys dadansoddiad a throsolwg o'r tueddiadau ym mhroffiliau dosbarthiadau gradd rhwng 2014/15 a 2018/19. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn cynnwys disgrifiad o algorithm y Brifysgol ar gyfer cyfrifo graddau israddedig a throsolwg o'r hyn a wneir yn y sefydliad i sicrhau y creffir ar y broses asesu ac arholi.

1. PROFFIL DOSBARTHU GRADDAU'R SEFYDLIAD

Cyflwynir proffil canlyniadau gradd israddedig ym Mhrifysgol Bangor dros gyfnod o bum mlynedd hyd at flwyddyn academiaidd 2018/19 yn Nhabl 1. Mae'r gyfran gyfunol o raddau dosbarth 1af a 2:1 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel graddau da) wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y cyfnod, tra bu gostyngiad yn yr un cyfnod yn y gyfran o raddau 2:2, 3ydd dosbarth a Llwyddo.


	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Anrhydedd dosbarth cyntaf	19.9%	21.6%	25.3%	28.3%	28.9%
Anrhydedd ail ddosbarth uwch	42.2%	44.8%	43.9%	42.7%	42.2%
Anrhydedd ail ddosbarth is	30.2%	26.1%	24.0%	23.1%	23.3%
Anrhydedd trydydd dosbarth/Llwyddo	7.4%	7.1%	6.6%	5.3%	4.4%
Diddosbarth	0.3%	0.4%	0.2%	0.6%	1.2%
% 1af / 2:1	62.1%	66.5%	69.2%	70.9%	71.1%

Tabl 1. Proffil canlyniadau gradd israddedig Prifysgol Bangor 2014-2019

Mae Tabl 2 yn rhoi'r un proffil canlyniadau gradd yn ôl rhywedd dros yr un cyfnod amser, ac mae'r duedd yng nghyfran y 'graddau da' ar gyfer merched a dynion wedi'i blotio yn Ffigur 1. Mae cyfran y graddau da yn achos merched a dynion fel ei gilydd wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gyda'r cynnydd yn fwyaf amlwg yn achos y ddau rywedd yn y gyfran o raddau dosbarth 1^{af} a ddyfarnwyd. Mae'r gyfran o raddau 2:1 a ddyfarnwyd dros y cyfnod o 5 mlynedd wedi bod yn llawer mwy sefydlog yn achos merched a dynion.


	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
	Merched	Merched	Merched	Merched	Merched
Anrhydedd dosbarth cyntaf	20.8%	23.1%	27.9%	31.1%	31.0%
Anrhydedd ail ddosbarth uwch	42.5%	46.2%	43.9%	42.9%	43.3%
Anrhydedd ail ddosbarth is	29.6%	23.8%	22.6%	20.6%	20.8%
Anrhydedd trydydd dosbarth/Llwyddo	6.7%	6.7%	5.5%	5.2%	4.1%
Diddosbarth	0.3%	0.2%	0.1%	0.2%	0.8%
% 1af / 2:1	63.4%	69.3%	71.8%	73.9%	74.3%
	Dynion	Dynion	Dynion	Dynion	Dynion
Anrhydedd dosbarth cyntaf	18.6%	19.8%	21.7%	24.2%	26.0%
Anrhydedd ail ddosbarth uwch	41.6%	43.0%	43.9%	42.4%	40.8%
Anrhydedd ail ddosbarth is	31.1%	29.1%	25.9%	26.8%	26.4%
Anrhydedd trydydd dosbarth/Llwyddo	8.4%	7.4%	8.0%	5.4%	4.9%
Diddosbarth	0.2%	0.7%	0.4%	1.2%	1.8%
% 1af / 2:1	60.2%	62.8%	65.6%	66.6%	66.8%

Tabl 2. Proffil canlyniadau gradd israddedig Prifysgol Bangor 2014-2019 yn ôl rhywedd.



Ffigur 1. Tuedd yng nghyfran y graddau da yn ôl rhywedd, 2014-2019.

Cyflwynir cyfran gyfartalog y gwahanol ddsbarthiadau gradd yn ôl maes pwnc JACS dros y cyfnod o bum mlynedd yn Ffigur 2. Mae rhywfaint o amrywiad yn nosbarthiad y graddau rhwng meysydd pwnc, gyda chyfran y graddau Dosbarth 1af yn amrywio o 15.7% (Addysg) i 37% (Peirianeg a Thechnoleg). Yn yr un modd, mae'r gyfran o raddau 2:1 yn amrywio o 24.8% (Peirianeg a Thechnoleg) i 50.5% (Celfyddydau Creadigol a Dylunio). Dros y cyfnod o bum mlynedd mae'r gyfran o raddau da yn amrywio o 58.5% (Pynciau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth) i 80.1% (Celfyddydau Creadigol a Dylunio). Mae hyn yn cyfateb ag ystod o 21.6% yn y gyfran o raddau da a ddyfarnwyd ar draws y meysydd pwnc ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r gyfran gyfartalog o raddau 2:2 a 3ydd dosbarth ar ei huchaf ym meysydd Addysg a Phynciau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth, yn y drefn honno. Mae'r ystod ar draws pob pwnc o ran y gyfran o raddau 2:2 a 3ydd dosbarth a ddyfarnwyd yn 18% ac 13.1%, yn y drefn honno.



Ffigur 2. Cyfartaledd dosbarthiad graddau dros bum mlynedd yn ôl maes pwnc JACS.

2. ASESU A MARCIO

Mae gan y Brifysgol set o egwyddorion ar waith sy'n llywodraethu ei dull o asesu. Maent wedi eu nodi yn ein *Fframwaith Asesu*, a luniwyd yn 2018 ac a gymeradwywyd yn Adroddiad Adolygu Gwelliant yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) (2018). Mae'r egwyddorion yn eang eu cwmpas, gan roi sylw er enghraifft i ddyluniad asesiadau a chanllawiau manwl ar bwysoliad a chywerthedd asesiadau.

Mae'r *Fframwaith Asesu* ar gael i aelodau staff a myfyrwyr a'i fwriad yw sicrhau bod staff a myfyrwyr yn rhannu disgwyliadau cyffredin am asesu. Mae'r *Fframwaith Asesu* yn amlinellu'r disgwyliad bod angen i asesiad, fesul cam, adlewyrchu lefel yr astudiaeth a chyflwyno mesur priodol o her academiaidd i fyfyrwyr. Mae'n ofynnol bod y rhai sy'n cynllunio asesiadau yn sicrhau bod asesiad yn mesur, mewn modd dilys, gyrhaeddiad myfyrwyr yn y deilliannau dysgu perthnasol, ac yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr fynegi'r cyrhaeddiad hwnnw i'r lefel uchaf bosib.

Rhaid i bob asesiad gael ei fapio i o leiaf un o ddeilliannau dysgu'r modiwl. Mae'r rhain yn gysylltiedig â deilliannau dysgu'r rhaglen, ac yn adlewyrchu datganiadau meincnod pwnc a gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol lle bo hynny'n berthnasol. Mae deilliannau dysgu rhaglenni a modiwlau wedi'u grwpio yn ôl y meini prawf a nodir yn nisgrifyddion dosbarthiad canlyniadau gradd yr ASA gan gynnwys cymwyseddau proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r cysylltiadau rhwng deilliannau dysgu modiwl â deilliannau dysgu rhaglenni a datganiadau meincnod pwnc yn cael eu hegluro ym manyleb y rhaglen, a gedwir yn ganolog gan yr Uned Gwella Ansawdd. Ystyrir y dull asesu ac i ba raddau mae'n mapio ar ganlyniadau dysgu wrth ddilysu modiwlau.

Marcio, gwirio a Byrddau Arholi

Fel y nodir yn Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig y Brifysgol, rhaid i Arholwr Allanol gymeradwyo pob cwestiwn a ddefnyddir mewn arholiadau sy'n cyfrif tuag at gymhwyster, er mwyn asesu priodoldeb, perthnasedd a lefel y cwestiynau yn unol â'u gwybodaeth am normau'r sector.

Bydd myfyrwyr yn defnyddio meini prawf marcio i ddeall yr hyn a ddisgwylir iddynt ei gyflawni. Mae'r Brifysgol yn defnyddio meini prawf marcio pwnc-benodol sy'n adlewyrchu cyd-destun y ddisgyblaeth a chyd-destun proffesiynol rhaglen. Mae meini prawf marcio penodol i fodiwlau ac asesiadau ar gael i bob myfyriwr.

Mae Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig y Brifysgol yn nodi'r broses ar gyfer gwirio marciau ac yn nodi diben hynny. Mae'r marciau ar gyfer pob modiwl ar draws y Brifysgol yn cael eu gwirio bob tro y cânt eu haddysgu. Mae gan bob Ysgol drefnau i ymdrin â gwahaniaethau sylweddol rhwng marcwyr a gwirwyr a chytunir ar ddatganiad o'r prosesau gwirio a ddefnyddir gan y Bwrdd Astudiaethau ac fe'i hystyrir pan fydd Ysgol yn cael ei Archwilio gan yr Uned Gwella Ansawdd. Mae pob ysgol yn rhoi manylion y drefn wirio i fyfyrwyr.

Cedwir copïau wedi'u marcio o asesiadau ar gyfer yr Arholwr Allanol, a fydd yn rhoi barn ar briodoldeb arferion marcio, a byddant yn adrodd arnynt mewn Byrddau Arholi Allanol ac yn yr adroddiad ysgrifenedig a anfonir at yr Uned Gwella Ansawdd, a bydd yn rhaid i'r ysgolion roi sylw i'r farn honno wrth gynllunio ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio Adroddiadau Asesu ar Gynodebau o Ansawdd Arholiadau Prifysgol (ARQUE) fel mecanwaith pellach i gymharu'r marciau a ddyfernir mewn gwahanol fodiwlau o fewn a rhwng blynyddoedd, ac i gymharu'r marciau a gyflawnir gan fyfyrwyr ar bob modiwl â'u perfformiad mewn modiwlau eraill. Defnyddir y system, a gaiff ei chynnal gan staff yr Uned Gwella Ansawdd, yn bennaf i nodi modiwlau sy'n allanolion ym Myrddau Arholi Mewnol ac Allanol yr Ysgolion, ond mae hefyd yn nodi gwahaniaethau posibl ym mherfformiad myfyrwyr yn ôl rhywedd. Caiff ARQUE ei ganmol yn rheolaidd gan Arholwyr Allanol, sy'n adrodd ei fod yn cefnogi trafodaethau tryloyw ac adeiladol ynglŷn â marciau ar draws modiwlau ac yn rhoi sicrwydd iddynt fod y marcio'n gyson ac yn anwahaniaethol.

Arbenigedd Allanol

Defnyddir arbenigedd allanol wrth gymeradwyo a dilysu rhaglen radd yn y lle cyntaf ac fel rhan o'r drefn flynyddol o sicrhau ansawdd trwy'r broses arholi allanol. Mae cymeradwyaeth gychwynol y rhaglen yn ystyried y strategaeth asesu yn fanwl, gan ddefnyddio arbenigedd pynciol mewnol ac allanol ym mhob achos. Mae'n sicrhau bod dulliau addysgu ac asesu wedi'u halinio â phwyntiau cyfeirio ar draws y sector megis *Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon* <<http://www.qaa.ac.uk/quality-code/qualifications-and-credit-frameworks>>, a Datganiadau Meincnod Pwnc <<http://www.qaa.ac.uk/en/quality-code/subject-benchmark-statements>> sy'n benodol i ddisgyblaeth. Rhaid i raglenni sy'n dyfarnu cydnabyddiaeth broffesiynol neu Drwydded i Ymarfer, megis Nyrsio neu Waith Cymdeithasol, alinio â safonau perthnasol Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheolaethol <<http://www.edgehill.ac.uk/aqdu/professional-accreditations/>>. Yn yr achosion hyn, mae'r Brifysgol yn cefnogi cyfranogiad agos gan y cyrff hynny mewn paneli dilysu a monitro parhaus. Defnyddir yr un drefn i gymeradwyo rhaglenni a adolygir trwy'r cylch ail-ddilysu 5-6 mlynedd.

Yn ogystal â chymeradwyo cwestiynau arholiad ac archwilio asesiadau wedi'u marcio, gofynnir i Arholwyr Allanol ddarparu adroddiad ysgrifenedig bob blwyddyn, a sylwadau llafar, i'r Bwrdd Arholi. Mae hyn yn cynnig sicrwydd bod safonau asesu a pherfformiad myfyrwyr yn gymharol â safonau cyrsiau sefydliadau addysg uwch tebyg yn y Deyrnas Unedig ac yn alinio â fframweithiau cenedlaethol. Yn yr achosion prin hynny pan fo Arholwyr Allanol yn codi pryderon, bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn sicrhau bod ysgolion yn mynd i'r afael â'r rhain yn llawn ac ystyrir yr achosion a'r ymatebion hynny gan gorff gwneud penderfyniadau Addysgu a Dysgu canolog y Brifysgol.

Ymdrinnir ag adroddiadau Arholwyr Allanol trwy broses adolygu flynyddol y Brifysgol ar gyfer pob modiwl a rhaglen. Cwblheir yr adolygiadau hyn gan arweinwyr modiwlau a rhaglenni a rhaid iddynt, ynghyd â sylwadau Arholwr Allanol, roi sylw i berfformiad cymharol myfyrwyr fel y'i hamlinellir gan y data ARQUE, ac adborth myfyrwyr (o amrywiol ffynonellau gan gynnwys gwerthusiadau modiwlau) ynghyd â hunan adfyfrio ar sail addysgeg.

Mae Arholwyr Allanol yn cael eu dewis, eu cymeradwyo a'u hyfforddi yn unol â Chanllawiau ar Arbenigedd Allanol yr ASA.

3. LLYWODRAETHU ACADEMAIDD

Rhaid i Gyngor y Brifysgol bennu bod y Brifysgol yn cwrdd â'r holl safonau a nodir yn *Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru*. Y Cyngor sydd â'r dasg o gymeradwyo datganiadau ansawdd blynyddol, sy'n golygu sicrhau: "Bod safonau'r cymwysterau rydym yn gyfrifol amdanynt wedi cael eu gosod a'u cynnal yn briodol." Mae Adroddiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol yn helpu i fodloni'r Cyngor bod y Brifysgol yn parhau i fodloni disgwyliadau cenedlaethol a gofynion rheoleiddiol ar gyfer safonau gradd.

Fel y nodir yn Siarter y Brifysgol, y Senedd yw "awdurdod academaidd" y Brifysgol, yn gyfrifol am y "gwaith academaidd". Y Senedd yw'r corff llywodraethol ar faterion academaidd (ond nid materion rheolaethol) ac mae'n gyfrifol am yr holl faterion academaidd sy'n effeithio ar y Brifysgol.

Dirprwywyd y gwaith o oruchwylio gweithrediad y mecanweithiau Sicrwydd Ansawdd a nodir uchod gan y Senedd r Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol. Nhw sydd hefyd yn ystyried materion

sy'n ymwneud â chanlyniadau gradd, perfformiad myfyrwyr a dosbarthiadau gradd yn sgil adolygiadau mewnol ac allanol parhaus.

Mae Byrddau Astudiaethau a Byrddau Cymwysterau'r Ysgolion (sy'n is-grwpiau i'r Byrddau Astudiaethau) yn gyfrifol am ansawdd eu cymwysterau ac yn ddarostyngedig i reoliadau'r Brifysgol. Bydd swyddogion Sicrhau Ansawdd yn mynychu'r Byrddau Cymwysterau yn ystod y flwyddyn cyn Archwiliadau Ansawdd Mewnol i wirio bod arferion priodol yn cael eu dilyn ac mae'n ofynnol hefyd i Arholwyr Allanol gadarnhau bod y Byrddau hyn yn dilyn rheoliadau'r Brifysgol.

Mae'r Grŵp Gwella Rhaglenni, sy'n is-grŵp o Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol, yn ystyried adolygiadau blynyddol ar Lefel Rhaglen. Bydd y grŵp hwn, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor dros Addysgu a Dysgu, ac sydd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Colegau a chynrychiolaeth o'r Uned Sicrhau Ansawdd, yn adfyfrio ar y materion a godwyd, yr arferion gorau, tueddiadau ar draws y Brifysgol, cyfleoedd ar gyfer gwella ac anghenion hyfforddi.

Mae pob rhaglen hyfforddedig yn cael ei haildilysu ar sail gylchol bob 5 mlynedd, fel rheol fel rhan o ddilysu rhaglenni hyfforddedig ar draws yr ysgol. Gall pryderon ynghylch ansawdd yr addysgu ac asesu ysgogi dilysiad y tu allan i'r cylch arferol.

4. ALGORITHM DOSBARTHU GRADDAU

Mae'r Brifysgol yn defnyddio un algorithm i bennu dosbarthiadau gradd ar gyfer Graddau Baglor (Anrhydedd). Mae'r cyfrifiad yn golygu ychwanegu canran gyffredinol modiwlau blwyddyn dau at ganran gyffredinol modiwlau blwyddyn tri gan roi pwysoliad dwbl i'r ail gyfartaledd: $[L5 + (L6 \times 2)]$. Ar gyfer graddau israddedig estynedig, yr algorithm yw $[(0.4 \times L6) + (0.6 \times L7)]$, fodd bynnag, os cymeradwyir hynny ar adeg dilysu gellir cynnwys modiwlau blwyddyn dau (L5) hefyd fel a ganlyn: $[L5 + (2 \times L6) + (3 \times L7)]/6$.

Nid yw'r algorithm ar gyfer graddau baglor wedi cael ei addasu ers i'r Brifysgol dderbyn pwerau dyfarnu annibynnol yn 2007 ond mae'n destun adolygiad cyfnodol. Cynhaliwyd un adolygiad o'r fath yng nghyd-destun UKSCQA *Principles of Effective Degree Algorithm Design*, ac rydym yn cadw'n drwm at yr egwyddorion hynny.

5. ARFERION ADDYSGU AC ADNODDAU DYSGU

Mae galluogi ein myfyrwyr i gael y radd orau y gallant yn ganolog i ethos Prifysgol Bangor ac mae wedi'i nodi yn Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol. Mae nifer o welliannau i'r addysgu a'r dysgu ac i gefnogi myfyrwyr, a wnaed dan arweiniad y Brifysgol, wedi cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ganlyniadau gradd ym Mangor yn ystod cyfnod yr adolygiad. Mae'r camau hyn a wneir ar lefel sefydliadol yn cyd-blethu â gweithgareddau ar lefel ysgol a phwnc.

Mae Canolfan Gwella Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol (CELT) wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer arloesi, gwella a chefnogi ym mhob agwedd ar addysgu a dysgu.

- Mae CELT hefyd yn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer staff academiaidd ar draws y Brifysgol.
- Mae CELT yn cefnogi staff i gyflawni cymwysterau ffurfiol mewn addysgu ym maes addysg uwch trwy'r Dystysgrif Ôl-radd mewn Addysg Uwch a Chynllun Cymrodoriaethau'r AAU. Yn ystod y cyfnod y mae'r datganiad hwn yn edrych arno, bu gwelliant yng nghyfradd llwyddiant y staff sy'n gwneud cais am Gymrodoriaethau'r AAU.

- Mae staff CELT wedi bod ar flaen y gad o ran projectau gwella addysgu a dysgu yn y Brifysgol. Mae themâu gwella allweddol yn cynnwys dylunio'r cwricwlwm, asesu ac adborth. Mae gwaith ar asesu ac adborth wedi golygu fod Bangor wedi cael sgoriau gwell na meincnod y sector ar gyfer y pwnc hwn yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr yn ystod y cyfnod adolygu. Yn ogystal, fel rhan o waith gwella asesu ac adborth, mae'r Brifysgol wedi ailwampio ei phrosesau ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud asesiad atodol, gan symud i ddull ysgol Haf. Fel esiampl o'r arfer gorau yn y sector, ers hynny mae'r dull wedi cael ei fabwysiadu gan nifer o Brifysgolion eraill.

Mae Bangor wedi bod ar flaen y gad wrth ymgorffori'r egwyddor o gyd-gynhyrchu o ran cynllunio, dilysu ac adolygu'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ar ddata wrth benderfynu ynghylch cynllunio ac adolygu'r cwricwlwm, gan ddefnyddio ystod o setiau data ansoddol a meintiol.

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r defnydd o feddalwedd recordio darlithoedd fel offeryn i gefnogi dysgu myfyrwyr. Yn ychwanegol, mae'r Brifysgol wedi parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau addysgu (gan gynnwys cyfleusterau labordy a pherfformio), gwasanaethau llyfrgell, cyfleusterau dysgu cymdeithasol a thechnolegau dysgu. Yn wir, roedd ansawdd yr adnoddau dysgu corfforol a rhithiol wedi ei nodi yng ngwerthusiad Aur y Brifysgol yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.

Mae'r Brifysgol yn darparu ystod eang o wasanaethau cefnogi myfyrwyr ac wedi datblygu ei system Canolfan Ceisiadau i wella sut y caiff ceisiadau gan fyfyrwyr am gefnogaeth gyda'u hastudiaethau eu rheoli. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi creu swyddi Cyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yn yr ysgolion academiaidd. Mae effeithiau cyfunol y gwelliannau i addysgu a dysgu a chefnogaeth myfyrwyr wedi golygu bod Prifysgol Bangor yn cael ei gosod yn gyson yn deg uchaf trwy'r Deyrnas Unedig am foddhad myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr yn ystod y cyfnod adolygu.